# Taflen Fy Ngwiriadau Iechyd Diabetes

Am ragor o wybodaeth am y profion a wnaed yn eich Apwyntiad Adolygiad Blynyddol, defnyddiwch y cod QR hwn neu ewch i dudalen Padlet CTM ar gyfer Diabetes Paediatrig gan ddefnyddio'r cod QR ar waelod y dudalen i edrych ar ein Taflen *Fy Ngwiriadau Iechyd Diabetes*:



GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

**My Diabetes Health Checks**

Looking after your health can sometimes mean learning about other conditions that can be linked to Type 1 Diabetes. As a champion of your own health, it is good to familiarise yourself with Diabetes health checks and what they mean.

**Remember: The best person to look after your health and diabetes is you.**

**Health Checks** occur regularly throughout the year and can range from person to person. Some of these health checks can be completed alone or with a family member, whereas others happen during an appointment at the hospital. We call this your **"Annual Review"**.

**Adnoddau defnyddiol eraill**

www.diabetes.org.uk

www.digibete.org

www.breakthrought1d.org.uk

https://padlet.com/ctmpaediatricdiabetes/information-for-children-young-people-and-families-cp58lii0nssdl27y

Rhif Cyswllt Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW):
0300 003 0500

Os hoffech chi drafod unrhyw feddyliau, teimladau neu gwestiynau am eich Adolygiad Blynyddol, cysylltwch â'ch tîm diabetes, rydyn ni'n hapus i helpu.

Tîm Diabetes Paediatrig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tachwedd 2024

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Canllaw Cyflym i'ch Adolygiad Diabetes




**PAEDIATRIC DIABETES SERVICE**

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

# Beth yw Adolygiad Blynyddol?



Dylai pob plentyn a pherson ifanc sydd â diabetes gael Adolygiad Blynyddol gyda'u Tîm Diabetes Paediatrig unwaith y flwy

Mae hwn yn gyfle i chi drafod beth sy'n mynd yn dda gyda'ch rheolaeth diabetes, pethau hoffech chi fwy o gefnogaeth gyda nhw ac i wirio eich iechyd cyffredinol Fel arfer, bydd eich apwyntiad Adolygiad Blynyddol o gwmpas adeg eich pen-blwydd neu'r dyddiad y cawsoch eich diagnosis diabetes.

Mae'r clinig Adolygiad Blynyddol yn cynnwys:

1. **Cyfarfod â'ch gweithwyr gofal iechyd proffesiynol diabetes a chael archwiliad**
2. **Cwblhau holiadur lles a chael cynnig adolygiad gyda'r seicolegydd (os oes angen)**
3. **Mesur eich taldra, eich pwysau a'ch pwysedd gwaed**
4. **Cymryd sampl gwaed gan ddefnyddio nodwydd**
   (Bydd hyn yn ein helpu i gynnal amrywiaeth o brofion gwaed sy'n sgrinio am gyflyrau cyffredin sy'n gysylltiedig â diabetes – am ragor o wybodaeth am y profion hyn, edrychwch ar yr adnoddau sydd ar gefn y daflen hon.) Os ydych chi'n poeni am gael profion gwaed, dywedwch wrthyn ni er mwyn i ni eich cefnogi gyda hyn)
5. **Prawf wrin (os ydych chi'n 12 oed neu'n hŷn)**
   (Mae hyn i wirio iechyd eich arennau – i gael rhagor o wybodaeth am y prawf hwn, edrychwch ar yr adnoddau ar gefn y daflen hon)
6. **Archwiliad traed (os ydych chi'n 12 oed neu'n hŷn)**
   (Mae hyn i wirio croen ac ewinedd eich traed – gall fod yn ddefnyddiol gwisgo esgidiau sy'n hawdd eu tynnu a'u rhoi pan fyddwch chi'n dod i'ch apwyntiad)
7. **Trafodaeth a sgwrs i'ch atgoffa am reolau diwrnodau salwch/rheoli lefelau glwcos uchel a hypoglycaemia**
8. **Cwestiynau Sgrinio**
   (Bydd hyn yn cynnwys gwirio a ydych chi (a'ch rhieni/gofalwyr) yn ysmygu neu ddim ac a ydych chi wedi cael eich imiwneiddio)
9. **Adolygiad dieteg a chael cynnig apwyntiad ychwanegol (os oes angen)**
10. **Sgrinio Retinaidd (os ydych chi'n 12 oed neu'n hŷn)**
    (Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) fydd yn cynnal y prawf sgrinio llygaid hwn, ond byddwn yn gofyn i chi a ydych chi wedi gwneud hyn ac am eich canlyniadau yn yr apwyntiad hwn)

# Paratoi ar gyfer eich apwyntiad



Un rhan o'r adolygiad blynyddol fydd sgwrs i weld sut rydych chi'n ymdopi â diabetes ar hyn o bryd.

Hoffen ni glywed mwy am y pethau rydych chi'n falch ohonyn nhw dros y flwyddyn ddiwethaf o ran eich diabetes, yn ogystal â'r pethau sydd wedi bod yn fwy anodd.

Hoffen ni gyfle i drafod y flwyddyn i ddod gyda chi, a'r ffordd orau o'ch cefnogi gyda'ch diabetes.

Os cewch chi gyfle cyn eich apwyntiad adolygu blynyddol, gallai fod yn ddefnyddiol i chi a'ch rhiant/gofalwr ystyried y pethau canlynol:

**Beth ydych chi fwyaf balch ohono dros y flwyddyn ddiwethaf o ran rheoli eich diabetes?**
(Os ydych chi'n cael trafferth meddwl am unrhyw beth, beth am siarad ag aelod o'r tîm diabetes? Byddwn ni'n gallu rhestru sawl peth rydyn ni'n falch ohono)

**Beth oedd y peth anoddaf am reoli diabetes dros y flwyddyn ddiwethaf?**
(Gallai hyn fod yn rhywbeth sydd yn anodd i chi o ran eich gofal diabetes, trafferth ffitio diabetes i mewn i'ch bywyd, neu eich teimladau am fyw gyda diabetes?)

**Beth hoffech chi fod yn wahanol y flwyddyn nesaf?**
(Oes gennych chi unrhyw amcanion neu unrhyw beth hoffech chi ei newid o ran eich rheolaeth diabetes?)

**Sut all y tîm diabetes eich cefnogi dros y flwyddyn nesaf?**
(Sut allwn ni helpu gyda'ch nodau ar gyfer y flwyddyn nesaf?)